## ATODLEN 3

## ATHRAWON CYMWYSEDIG A DARPARIAETHAU TROSIANNOL YN YMWNEUD AG ATHRAWON CYMWYSEDIG

**8.** Mae Cyngor Addysg Taleithiau Guernsey wedi cyflwyno i'r Cynulliad argymhelliad y dylid dyfarnu statws athro cymwysedig i'r person ac-

(a) datganiad ei fod wedi cwblhau dwy flynedd o wasanaeth amser-llawn neu gyfnod cyfatebol o wasanaeth rhan-amser fel athro wedi'i drwyddedu gan Gyngor Addysg Taleithiau Guernsey a'r hyfforddiant a bennir yn y drwydded;

(b) datganiad —

(i) ei fod wedi cwblhau'n llwyddiannus ddim llai na un flwyddyn o wasanaeth fel athro wedi'i drwyddedu gan Gyngor Addysg Taleithiau Guernsey a'r hyfforddiant a bennir yn y drwydded, a

(ii) ei fod cyn dyddiad cychwyn y drwydded wedi cyrraedd 24 oed, a

(iii) ei fod cyn dyddiad cychwyn y drwydded nad oedd wedi'i gyflogi am lai na dwy flynedd fel athro neu ddarlithydd mewn ysgol annibynnol (gan gynnwys coleg dinesig), neu sefydliad neu brifysgol yn y Deyrnas Unedig neu fel hyfforddwr neu Swyddog Addysg yn y Lluoedd Arfog y Goron neu fel hyfforddwr o dan baragraff 3 o Atodlen 2 i Reoliadau 1993 neu baragraff 3 o Atodlen 2 ac nad oedd wedi'i ddiswyddo am resymau heblaw colli gwaith; neu

(c) datganiad —

(i) ei fod wedi cwblhau'n llwyddiannus ddim llai nag un tymor ysgol o wasanaeth fel athro trwyddedig a'r hyfforddiant a gynigwyd yn yr argymhelliad am drwydded, a

(ii) cyn dyddiad cychwyn y drwydded ei fod wedi cwblhau'n llwyddiannus naill ai —

(aa) cwrs hyfforddiant cychwynnol yn para o leiaf dair blynedd ar gyfer athrawon mewn ysgolion mewn sefydliad addysgol y tu allan i Gymru a Lloegr, neu

(bb) cwrs gradd gyntaf a chwrs ôl-raddedig o hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon mewn ysgolion mewn ysgolion o'r fath (p'un ai yn yr un sefydliad neu beidio), a

(iii) na chafodd ei gyflogi am lai na blwyddyn fel athro neu ddarlithydd mewn ysgol, ysgol annibynnol (gan gynnwys coleg dinesig), sefydliad neu brifysgol neu sefydliad addysgol arall yng Nghymru neu Loegr neu yn rhywle arall ac na chafodd ei ddiswyddo am resymau heblaw fod ei swydd wedi mynd yn ddiangen.